CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S *WEEKLY NEWSLETTER.*

WYTHNOS YN DIWEDDU/*WEEK ENDING:* **10.01.20**

CROESO'N ÔL! – *WELCOME BACK!*

Braf iawn oedd cael croesawu pawb yn ôl ddydd Mawrth ar ôl gwyliau'r Nadolig. Gobeithio i bawb gael amser wrth eu bodd, a manteisiaf ar y cyfle hwn i ddymuno blwyddyn newydd dda a dedwydd i bob un ohonoch yn ystod 2020.

It was lovely to welcome everyone back following the Christmas holiday on Tuesday. It is hoped that everyone had a good break, and I take this opportunity to wish each and every one of you a happy and prosperous new year.

PANTOMEIM THEATR CLWYD *PANTOMIME.*

Mwynhaodd disgyblion yr Unedau dan 7 eu hunain yn fawr yn gwylio perfformiad o bantomeim blynyddol Theatr Clwyd fore Mercher. Jac a'r Goeden Ffa oedd y testun y tro hwn, a bu'r cyfan yn brofiad theatrig gwych i'r disgyblion ifanc hyn.

All the Under 7's Units' pupils very much enjoyed themselves watching a performance of Theatr Clwyd's annual pantomime on Wednesday morning. The theme this year was Jack and the Beanstalk, and it was a wonderful theatrical experience for these young pupils.

PRYDLONDEB YN Y BORE – *PUNCTUALITY IN THE MORNING.*

Yn anffodus, mae yna ddisgyblion yn hwyr yn cyrraedd yr ysgol yn rheolaidd. Rhaid gwneud pob ymdrech i wella ar hyn, gan fod pob munud yn yr ysgol yn eithriadol bwysig. Rhaid sicrhau fod y disgyblion wedi cyrraedd yr ysgol erbyn yr amser dechrau am 8.50 a.m., gan fod gweithgareddau'r dosbarthiadau yn dechrau bryd hynny, ac ni ddylai unrhyw un golli hynny. Os yw eich plentyn yn mynd i fod yn hwyr unrhyw ddiwrnod, gofynnir i chi ein hysbysu o hynny os gwelwch yn dda.

Unfortunately, there are pupils who arrive late in school on a regular basis. Every effort must be made to improve on this, as every minute of school time is essentially important. Pupils are required to be in school by the starting time of 8.50 a.m., as the class activities begin at that time, and no-one should miss out on these. If your chid is going to be late on any day, please inform us of this.

HEN STAMPIAU POST – *USED POSTAGE STAMPS.*

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y casgliad hwn, ac ni fyddwn yn derbyn rhagor o heddiw ymlaen, gan fod pecyn sylweddol wedi'i anfon ymlaen i wasanaeth Ambiwlans Awyr.

Many thanks to everyone who have donated to this collection. We will not be taking any more as from today, as a large pack has been donated to the Air Ambulance service.

MEITHRIN 2020-2021 *NURSERY.*

Os oes gennych blentyn a fydd yn dair oed erbyn Awst 31ain. 2020, y dyddiad cau ar gyfer ei gofrestru ef/hi ar wefan Cyngor Sir y Fflint, i fynychu'r Meithrin ym Medi 2020 yw dydd Gwener, Chwefror 21ain. Os y gwyddoch am unrhyw riant (nad yw eisoes yn riant yn yr ysgol hon), sy'n awyddus i'w plentyn dderbyn addysg Gymraeg o fis Medi 2020 ymlaen, a fyddech cystal â throsglwyddo'r neges hon iddynt hwythau os gwelwch yn dda.

If you have a child who will be three by August 31st 2020, the closing date for registering him/her on the Flintshire website for Nursery education in September 2020 is Friday, February 21st. If you know of any other parent (who is not already a parent in this school), who is eager for their children to receive Welsh medium education from September 2020 onwards, would you kindly relay this message to them please.

DIWRNOD HYFFORDDIANT MEWN SWYDD – *IN SERVICE TRAINING DAY.*

Fe'ch hatgoffir y bydd **dydd Llun, Chwefror 24ain** yn diwrnod hyfforddiant mewn swydd i ysgolion cynradd Cymraeg y sir, ac na fydd ysgol i'r disgyblion ar y diwrnod hwnnw.

*You are reminded that **Monday, February 24th.** is an in service training day for the Flintshire Welsh primary schools, and that there will be no school for the pupils on that day.*

DIGWYDDIADAU'R WYTHNOS NESAF – *NEXT WEEK'S EVENTS.*

13.01.20	Bore - Gweithdy chwaraeon buarth i ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 (angen gwisgo esgidiau ymarfer yn ystod y sesiwn) – *Playground Games workshop for Years 3 and 4 pupils (need to wear trainers during the session).*
14.01.20	Gêm bêl rwyd yn erbyn Ysgol Bryn Coch – *Netball game against Ysgol Bryn Coch.*
15.01.20	3.15 p.m. – Clwb Chwaraeon yn dechrau i ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 – *Sports Club commences for Years 1 and 2 pupils.*
17.01.20	Twrnament pêl droed i ferched yng Nglannau Dyfrdwy – *Girls' football tournament at Deeside.*

BWYDLEN YR WYTHNOS NESAF – *NEXT WEEK'S MENU*

WYTHNOS/*WEEK* 3